# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 5 Rhagfyr 2003

**R – Yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd yn dilyn y cyflwyniad gerbron Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gan gynrychiolwyr Canolfan Addysg Arweiniol Cymru. (WAQ30606)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi sefydlu Canolfan Addysg Arweiniol Cymru. (WAQ30607)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pan gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi Addysg Arweiniol yng Nghymru. (WAQ30608)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Hufenfa Llandyrnog ynghylch eu masnachu yn y dyfodol. (WAQ30604)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A ydyw'r Gweinidog yn rhagweld unrhyw oedi gyda thalu'r cymorthdaliadau amaeth dros y flwyddyn nesaf. (WAQ30612)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a oes ganddo unrhyw gynlluniau i gyflwyno ymateb ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymgynghoriad ar gynhyrchu a defnyddio cynaliadwy yn y DU sydd ar y gweill ar hyn o bryd. (WAQ30605)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa bolisïau sydd yn eu lle yng Nghymru i gyfyngu ar estyniadau i anheddau sy'n fyngalos â dwy ystafell wely. (WAQ30610)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i ddiwygio polisi cynllunio er mwyn cyfyngu ar estyniadau i anheddau sy'n fynaglos â dwy ystafell wely yng Nghymru. (WAQ30609)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa fesurau sydd ar gael i gefnogi ffermwyr sydd am arallgyfeirio i faes llochesi anifeiliaid. (WAQ30611)